Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Alchemy Expo

Mae cwmni Alchemy Expo, sy'n arloesi mewn creu arddangosiadau corfforaethol o fri, yn bwriadu ehangu ei wasanaethau er mwyn cyrraedd marchnad byd eang.

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Wrth i'r diwydiant arddangosiadau ar gyfer cynadleddau ac arddangosfeydd ddatblygu'n fwyfwy rhyngweithiol ac amrywiol gwelodd Alchemy Expo fod angen cynnig ateb cyflawn a fyddai'n cynnwys arddangosiadau traddodiadol a hefyd arddangosiadau gweledol arloesol. Y cwmni hwn yw'r unig gwmni yn y DU a all gyflenwi technoleg ryngweithiol gwbl arloesol ar gyfer arddangosiadau, sef Christie MicroTiles. Caiff y stondinau unigryw a blaengar hyn eu creu gan ddefnyddio teils digidol sy'n dangos delweddau'n symud, dyluniadau statig a rhyngweithiol a sgriniau cyffwrdd.

Mae cyllid gan Raglen Cymorth Arloesi i Fusnesau Llywodraeth Cymru wedi galluogi'r cwmni i fuddsoddi cryn dipyn o arian mewn Christie MicroTiles. Golyga hyn fod Alchemy Expo yn achub y blaen ar yr holl gwmnïau sy'n mewnforio o Dde-ddwyrain Asia, a'i fod yn flaenllaw ar draws Ewrop wrth ddarparu gwasanaethau technolegol ar gyfer arddangosiadau digidol. Mae cyllid arloesi hefyd wedi helpu'r cwmni i ddatblygu strategaethau marchnata a sgiliau gweithwyr fel y gallant ymdopi â'r galw cynyddol am eu cynhyrchion. Yn ddiamau, fodd bynnag, buddsoddi mewn Christie MicroTiles a ddiogelodd ddyfodol Alchemy Expo.

Dywedodd Cyfarwyddwr Alchemy Expo, Andrew Butcher: "O ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ni allai Alchemy Expo fod wedi buddsoddi yn y system Christie heb y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Roeddwn wedi ystyried buddsoddi yn y system ynghynt ond gan fod yn rhaid talu cyflogau 14 o weithwyr nid oedd modd cyfiawnhau'r gwariant. Rydym bellach ar flaen y gad o fewn diwydiant sy'n newid ac yn trafod busnes â chwsmeriaid na fyddem wedi gallu eu cyrraedd ynghynt. Mae defnyddio sgriniau MicroTile yn ein stondinau ar gyfer digwyddiadau byw yn ein gorfodi ni a'n cleientiaid i feddwl mewn ffordd gwbl newydd – ardderchog yw gweld eu hymateb pan fyddant yn sylweddoli beth sydd bellach yn bosibl."

Busnes Cymru Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

Ebost: businesssupport@wales.gsi.gov.uk

Gwefan: busnes.cymru.gov.uk

Ffôn: 03000 6 03000

arloesi

WG17397 / © Hawlfraint y Goron 2014